




Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

# Dyfarniadau Trwy Ddiffyg Llysoedd Sirol

Ymgynghoriad ar sicrhau bod y broses  
yn gweithio'n deg, i gredydwy'r a  
dyledwy'r

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 27 Rhagfyr 2017

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn dod i ben ar 21 Chwefror 2018



[leave this page blank – back of cover]



Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

## **Dyfarniadau Trwy Ddiffyg Llysoedd Sirol**

Ymgynghoriad ar sicrhau bod y broses  
yn gweithio'n deg, i gredydwy'r a  
dyledwy'r

Dogfen a gynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae hefyd ar gael yn  
<https://consult.justice.gov.uk/>

## Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

**At:** Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau mudiadau dyledwyr a chredydwyr yng Nghymru a Lloegr. Nid yw hon yn rhestr gyflawn.

**Hyd:** 27/12/17 i 21/2/18

**Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat gwahanol) i:**

Civil Procedure and Enforcement Team  
Ministry of Justice  
102 Petty France  
Llundain SW1H 9AJ  
Ffôn: 020 3334 3555

**Sut i ymateb:**

Anfonwch eich ymateb erbyn 21 Chwefror 2018 at:  
ccjreply@justice.gov.uk  
3<sup>rd</sup> Floor, Post point 3.32  
Ministry of Justice  
102 Petty France  
Llundain SW1H 9AJ  
Ffôn: 020 3334 3555

**Y papur ymateb:**

Bydd ymateb i'r ddogfen ymgynghori hon yn cael ei gyhoeddi erbyn Mai 2018 yn: <https://consult.justice.gov.uk/>

## Cynnwys

Rhagair	3
Crynodeb gweithredol	4
Cyflwyniad	5
Dyfarniadau Trwy Ddiffyg Llysoedd Sirol	7
Holiadur	20
Amdanoch chi	21
Manylion cyswllt / Sut i ymateb	22
Asesiad o Effaith	23
Prawf o'r Effaith ar y Gymraeg	24
Ystyriaethau cydraddoldeb	25
Egwyddorion ymgynghori	27

---

[leave this page blank – back of contents page]

## Rhagair

Mae'r Llywodraeth wedi cychwyn ar raglen ddiwygio bwysig ar draws y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr. Mae gennym eisoes system gyfiawnder sy'n uchel ei pharch ledled y byd, ond ein gweledigaeth yw system wirioneddol fodern sy'n gyflymach, yn fyw hygyrch ac yn haws i bawb ei defnyddio.

Ymhlith pethau eraill mae hyn yn sicrhau bod pobl sy'n dod ag achosion i'r llys, neu a all fod yn amddiffyn achos, yn deall eu hawliau a'u cyfrifoldebau a'r opsiynau sydd ar gael iddynt, trwy raglen o addysg gyfreithiol, pecynnau cyfeirio gwell a chreu un system ar-lein ar gyfer cychwyn a rheoli achosion ar draws y system gyfiawnder.

Cyhoeddodd y Llywodraeth ym mis Rhagfyr 2016 y byddai'n holi beth yw barn eraill ar wella'r broses sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd lle mae busnesau ac unigolion sydd ag arian yn ddyledus iddynt yn ceisio ei adennill trwy'r Llys Sirol yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn dilyn pryderon am effaith andwyol bosibl dyfarniad Llys Sirol ar unigolion sydd, heb fod yn ymwybodol bod dyfarniad wedi'i wneud yn eu herbyn, yn darganfod fisoedd neu flynyddoedd yn ddiweddarach bod eu statws credyd wedi'i niweidio.

Mae'n anorfod, weithiau, nad yw pobl yn ymwybodol eu bod yn destun dyfarniad Llys Sirol, ond mae pryder bod hyn yn digwydd mewn rhai achosion am fod credydwyr yn mynd ati'n fwiadol i ddefnyddio cyfeiriadau ar gyfer dyledwyr er eu bod yn gwybod eu bod yn hen. Mae hyn yn amddifadu dyledwyr o'r cyfle i amddiffyn yr hawliad ac maent wedyn yn gorfod dioddef canlyniadau gorfodaeth bosibl wrth i gredydwyr ddefnyddio hyn fel modd i gryfhau eu safle wrth adennill dyledion yn y dyfodol.

Ers cyhoeddiad y llynedd, mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid o'r sector cynghori, y sector rheoli dyledion ac adrannau eraill Whitehall i edrych ar ffyrdd i warchod defnyddwyr yn well, gan gynnwys amddiffyn eu statws credyd rhag cael ei niweidio.

Mae'r papur ymgynghori hwn yn cynnig rhai newidiadau i broses bresennol y llys lle'r ydym yn teimlo bod angen iddi fod yn decach i'r sawl sydd â dyledion. Mae'n edrych sut y gallwn wella'r wybodaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr i helpu i'w hysbysu o'u hawliau a'u cyfrifoldebau fel y byddant yn fwy hyddysg am hawliadau ddyledion yn y llys sirol. Mae hefyd yn gofyn a yw'r broses bresennol yn cael ei cham-drin gan rai credydwyr.

Llofnod

xxx

Y Gweinidog Llysoedd a Chyfiawnder, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder

## Crynodeb gweithredol

Gyda chefnidir o ddiwygio yn y llysoedd a thribiwnlysoedd, mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder am sicrhau bod gan y broses i adennill dyledion y cydbwysedd priodol rhwng hawl dilys busnes neu unigolyn i wneud hawliad am arian a hawl y dyledwr i wybod (i'r graddau sy'n bosibl, yn dilyn ymdrechion gan y credydwr i ymgysylltu â'r dyledwr) am unrhyw hawliad yn eu herbyn ac i gael y cyfle i amddiffyn yr hawliad hwnnw.

Gall credydwr wneud cais i'r Llys Sirol i adennill arian sy'n ddyledus iddynt. Adwaenir hyn fel gwneud hawliad llys. Mae dyfarniad Llys Sirol yn ddyfarniad a wneir gan y Llys Sirol yn erbyn dyledwr sydd heb dalu arian sy'n ddyledus. Os na fydd y diffynnydd yn ymateb i'r hawliad llys ac os nad yw wedi cofnodi amddiffyniad yn erbyn yr hawliad bydd y Llys yn gwneud dyfarniad a elwir yn 'ddyfarniad trwy ddiffyg' ar gais yr hawlydd. (Mae'r broses i adennill dyled trwy'r Llys Sirol wedi'i disgrifio'n fanylach yn adran Cefndir y papur hwn).

Gall diffynnydd beidio ag ymateb oherwydd eu bod yn fwriadol yn osgoi talu. Ond gall ddigwydd hefyd am nad ydynt yn ymwybodol o'r hawliad.

Ar ôl ei wneud, bydd y dyfarniad yn cael ei gofnodi ar y Gofrestr Dirwyon, Gorchmynion a Dyfarniadau lle bydd yn aros am chwe blynedd. Gall y Gofrestr gael ei harchwilio'n ddiweddarach gan fenthyciwr os bydd y diffynnydd yn mynd ato i gael benthyciad. Gall presenoldeb dyfarniad yn erbyn unigolyn ar y Gofrestr ei rwystro rhag cael benthyciad er enghraifft.

Mae swyddogion y Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi trafod y broses bresennol sy'n ymwneud â dyfarniadau Llys Sirol, gan gynnwys pryderon y gall rhai credydwr fod yn defnyddio cyfeiriadau anghywir yn fwriadol, ag ystod eang o randdeiliaid sy'n cynrychioli'r sector cyngori, mudiadau hawlwr ac adrannau'r llywodraeth. Mae'r ymgysylltu hwn wedi bod yn fuddiol dros ben i ganfod ffordd ymlaen.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gwneud tri pheth yn bennaf.

Yn gyntaf, mae'n cyflwyno cynigion i hysbysu defnyddwyr o'u hawliau a'u cyfrifoldebau, er enghraifft, yr hyn y dylent ei wneud i ddiweddarau credydwr gyda'u manylion cyswllt.

Yn ail, mae'n holi barn ar opsiwn polisi i wella pethau i ddiffynnyddion trwy ddileu cofnodion ar y Gofrestr Dirwyon, Gorchmynion a Dyfarniadau pan fydd diffynnydd yn setlo'r hawliad ar unwaith ar ôl i ddyfarniad gael ei ddwyn i'w sylw, ar yr amod eu bod yn bodloni'r llys nad oeddent yn ymwybodol o'r dyfarniad cyn hynny.

Yn drydydd, mae am gael data lle mae dyfarniad Llys Sirol wedi cael ei gofnodi yn erbyn dyledwr heb yn wybod iddynt, lle mae hawliad wedi cael ei anfon i hen gyfeiriad neu gyfeiriad anghywir am fod hawlydd yn torri rheolau'r llys yn fwriadol.



## Cyflwyniad

Yn yr ymgynghoriad hwn mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn awyddus i glywed barn unigolion ar effeithiolrwydd a phriodoldeb y prosesau presennol ar gyfer hawliadau arian a gyhoeddir yn y Llys Sirol. O ddiddordeb penodol fydd barn ymatebwyr ar gyfyngu ar yr amgylchiadau lle gellir gwneud dyfarniadau yn erbyn unigolyn mewn achos o ddiffygdalu heb yn wybod iddynt.

Yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, bydd y Llywodraeth yn ystyried a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r trefniadau presennol, a bydd yn gofyn i'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil, sy'n llywodraethu prosesau yn y llysoedd sifil, i ystyried unrhyw newidiadau.

Byddai unrhyw newidiadau i'r gweithdrefnau presennol, yn dilyn yr ymgynghoriad, yn anrnod yn cael eu gweithredu yn achos pob hawliad yn ymwneud ag arian, boed hwy'n deillio, dyweder, o hawliad am ddiffyg taliadau am oergell neu deledu newydd neu os ydynt yn cael eu gwneud gan gwmni parcio sy'n ceisio gorfodi tor rheol parcio ar dir preifat. Mae'r ddau'n defnyddio'r un broses. Felly gofynnir i ymatebwyr sy'n rhannu eu profiadau â ni ddatgan yn glir at ba fath o hawliad maent yn cyfeirio.

Mae'r papur hwn wedi'i anelu'n benodol ar y sawl sydd wedi cael profiad o ddyfarniadau Llys Sirol, boed fel diffynyddion neu hawlwr, a chyrrff sy'n cynrychioli buddiannau hawlwr neu ddiffynyddion, ond croesawir ymatebion gan unrhyw un sydd â diddordeb yn y pwnc.

Anfonwyd y papur hwn at:

### **Cyrrff Barnwrol a Chyfreithiol** gan gynnwys:

- Cymdeithas y Barnwyr Rhanbarth
- Cyngor y Bar
- Grŵp Meistri'r Uchel Lys
- Cyngor EM o Farnwyr Cylchdaith
- Cymdeithas y Cyfreithwyr
- Yr uwch farnwriaeth trwy Swyddfa Farnwrol Cymru a Lloegr
- Cyfreithiwr y Trysorlys.

### **Cyrrff defnyddwyr a grwpiau Rhanddeiliaid** gan gynnwys:

- Advice Services Alliance
- Arrow Global, Automobile Association
- British Motorists Protection Association
- British Parking Association, Cabot Financial

- Casehub
- Cyngor ar Bopeth
- Cyngor Cyfiawnder Sifil
- Cymdeithas Defnyddwyr Llysoedd Sifil
- Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a sefydliadau busnes fel Cydffederasiwn Diwydiant Prydain
- Cymdeithas y Gwasanaethau Credyd
- Comisiwn Hawliau Anabledd
- Equifax
- Experian
- Y Comisiwn Cyfle Cyfartal
- Ffederasiwn y Busnesau Bach
- International Parking Community
- Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol
- Yr Ymddiriedolaeth Cyngori Ariannol
- Cymdeithas Genedlaethol Cyngorwyr Ariannol Myfyrwyr
- Cyngor Defnyddwyr Cenedlaethol
- Pay Plan
- Parking Eye
- Personal Support Unit
- Registry Trust.
- Southern Water
- Stepchange
- This is Money
- Which? a grwpiau rhanddeiliaid eraill gan gynnwys OFGEM, OFWAT.

**Adrannau a chyrrff eraill y Llywodraeth:** gan gynnwys:

- Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol
- Yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Dyfarniadau Trwy Ddiffyg Llysoedd Sirol

### Cefndir

Mae'r system cyfiawnder sifil yn ymdrechu i sicrhau bod prosesau ar waith sy'n galluogi unigolion a busnesau i adennill arian sy'n ddyledus iddynt mewn ffordd effeithlon ac amserol, ac sydd ar yr un pryd yn gwarchod hawliau'r rhai sydd mewn dyled.

Disgrifir y prosesau presennol ar gyfer adennill arian isod.

### Y Cam cyn yr Hawliad

Dylid cymryd pob cam rhesymol i annog setlo'r ddyled er mwyn osgoi camau cyfreithiol, ond bydd hyn yn dibynnu a yw cyfathrebu'n bosibl rhwng yr hawlydd a'r diffynnydd.

### Cyflwyno'r hawliad

Pan fydd angen mynd i'r llys, mae egwyddorion llywodraethu cyffredinol cyflwyno dogfennau mewn achosion llys (h.y. y broses o gyfathrebu / rhoi hysbysiad o achos i'r diffynnydd) i'w cael yn Rhan 6 y Rheolau Trefniadaeth Sifil. Mae'r hawlydd yn rhoi cyfeiriad ar gyfer cyflwyno'r hawliad i'r llys. Hwn fydd cyfeiriad arferol y diffynnydd os yw'n hysbys, neu'r cyfeiriad hysbys diwethaf os nad yw'r hawlydd yn gwybod beth yw'r cyfeiriad presennol (hyd yn oed os yw'r diffynnydd wedi symud) neu os nad yw'r diffynnydd wedi cyflenwi cyfeiriad presennol. Nid yw'r Rheolau'n mynnu bod yr hawlydd yn sicrhau nac yn profi bod y diffynnydd wedi cael hawliad; y drefn yw mai cyfrifoldeb y diffynnydd yw diweddarau credydwy'r gyda'u cyfeiriad newydd a / neu drefnu bod eu llythyrau'n cael eu hailgyfeirio.

Ar yr un pryd, rhaid i hawlwy'r, mewn achosion sifil, lofnodi datganiad o wirionedd h.y. bod yr hawlydd yn credu bod y ffeithiau sydd wedi'u datgan yn y ffurflen hawlio'n wir. Mae hyn yn cynnwys enwau a chyfeiriadau'r partïon. Gall unrhyw un sy'n rhoi gwybodaeth anghywir yn fwriadol fod yn agored i gyhuddiad o ddirmyg llys, ac os bydd dirmyg yn cael ei brofi y gosb yw cyfnod o garchar neu ddirwy.

Rhaid i hawlydd gymryd "camau rhesymol" i ganfod cyfeiriad cyfredol y diffynnydd. Os na all yr hawlydd ganfod cyfeiriad cyfredol y diffynnydd, rhaid i'r hawlydd ystyried a oes lleoliad neu ddull arall o wasanaethu'r hawliad, gyda chaniatâd y llys. Os na all yr hawlydd ganfod cyfeiriad cyfredol yr hawlydd na dull arall o gyflwyno'r hawliad gellir cyflwyno'r hawliad i gyfeiriad hysbys diwethaf yr hawlydd.

### Dyfarniadau Trwy Ddiffyg

Ar ôl cyhoeddi ffurflen hawlio i'r diffynnydd, mae gan y diffynnydd 14 diwrnod i ateb yr hawliad (neu 28 diwrnod os yw'n dychwelyd cydnabyddiaeth o gyflwyno sy'n gofyn am ragor o amser i lunio amddiffyniad). Cyn belled â bod y weithdrefn gywir wedi'i dilyn, gall yr hawlydd gael dyfarniad trwy ddiffyg os nad yw'r diffynnydd wedi ymateb neu wedi cyflwyno amddiffyniad o fewn y cyfnod o 14 neu 28 diwrnod.

### Gosod dyfarniad o'r neilltu

Pan ddaw bodolaeth dyfarniad yn hysbys i ddiffynnydd yn ddiweddarach, mae ganddo hawl i wneud cais i'r llys i'w rhoi o'r neilltu. Mae'r broses hon i'w chael yn Rhan 13 o'r Rheolau Trefniadaeth Sifil.

Rhaid i'r llys osod dyfarniad trwy ddiffyg o'r neilltu sydd wedi'i gofnodi'n anghywir pan fydd y diffynnydd:

- wedi talu'r swm llawn sy'n ddyledus cyn i ddyddiad y dyfarniad gael ei gofnodi
- wedi cyflwyno cydnabyddiaeth cyflwyno ac amddiffyniad o fewn y terfynau amser, neu
- wedi cyflwyno amddiffyniad o fewn y terfyn amser.

Gall y llys osod dyfarniad trwy ddiffyg o'r neilltu os yw'r llys o'r farn:

- bod gan y diffynnydd siawns wirioneddol o amddiffyn yr hawliad yn llwyddiannus; neu
- bod rheswm da arall pam y dylai'r dyfarniad gael ei osod o'r neilltu.

Efallai y bydd y llys o'r farn na fyddai'n briodol i osod y dyfarniad o'r neilltu am y rheswm nad yw'r diffynnydd wedi cael y ffurflen hawlio am ei bod wedi ei hanfon i'r cyfeiriad hysbys diwethaf os nad oes gan y diffynnydd siawns wirioneddol o amddiffyn yr hawliad yn llwyddiannus. Fodd bynnag, gall cais i osod dyfarniad o'r neilltu lwyddo os:

- gall y diffynnydd brofi ei fod wedi rhoi cyfeiriad newydd i'r credydwr;
- nad oedd y Rheolau wedi'u dilyn wrth wneud yr hawliad, er enghraifft, nid oedd y papurau wedi eu hanfon naill ai i'r cyfeiriad arferol neu'r cyfeiriad hysbys diwethaf; neu
- os yw'r swyddfa bost wedi dychwelyd papurau'r hawliad am nad oedd yn gallu eu danfon (er enghraifft am nad yw'r cyfeiriad yn bodoli).

## **Y Gofrestr Dyfarniadau, Gorchmynion a Dirwyon**

Pan fydd llys yn gwneud dyfarniad trwy ddiffyg, bydd cofnod o'r dyfarniad hwnnw'n aros ar y Gofrestr Dyfarniadau, Gorchmynion a Dirwyon am chwe blynedd, boed y ddyled wedi'i thalu o'r Gofrestr neu beidio. (I nodi pan fo'r ddyled wedi ei thalu, ond ar ôl y 28 diwrnod, mae'r Gofrestr yn cael ei marcio fel "satisfied").

### **Data**

Cafodd tua 1.4 miliwn o hawliadau arian Llysoedd Sirol eu cyhoeddi ym mlwyddyn ariannol 2016/2017, gyda rhan fwyaf o'r rhain yn 'hawliadau arian penodedig' – mewn geiriau eraill, yn wahanol i achosion anafiadau personol (lle mae'n rhaid i union swm yr iawndal sydd i'w dalu gael ei asesu gan y llys), mae'r hawlydd yn ceisio adennill swm penodol o arian.

Bu dros 1.1 miliwn o ddyfarniadau Llys Sirol yn 2016/2017, gyda'r mwyafrif helaeth - 85% - wedi diweddu mewn dyfarniad trwy ddiffyg. Roedd y gweddill yn ddyfarniadau a wnaed gan y llys yn dilyn ymgysylltu gan y diffynnydd, fel cyfaddef i'r ddyled ond yn gwadu'r swm sy'n ddyledus.

Ceir data ystadegol yn **Atodiad A** a diffiniad o'r termau a ddefnyddiwyd yn y papur hwn yn **Atodiad B**

Mae'r data ar hawliadau arian penodedig yn awgrymu bod cyfran sylweddol o ddiffynnyddion yn cael y ffurflen hawlio ac yn dewis peidio ag amddiffyn yr hawliad. Efallai nad dynt am amddiffyn yr hawliad oherwydd:

- nid ydynt yn gwybod beth i'w wneud;
- maent yn gwybod bod arian yn ddyledus ond yn penderfynu gadael i bethau ddilyn y broses;
- ni allant ddeall yr wybodaeth maent yn ei chael, efallai oherwydd problemau llythrennedd neu iaith;
- eu bod yn credu na fydd dim canlyniadau os byddant yn gwneud dim;
- eu bod yn credu nad oes ganddynt ddyled;
- eu bod wedi cael eu cyngori'n wael yn bersonol neu trwy wybodaeth annibynadwy ar y we; neu
- am nad ydynt yn ymwybodol bod hawliad yn eu herbyn os oes hen gyfeiriad neu gyfeiriad anghywir wedi cael ei ddefnyddio gan yr hawlydd.

Mae'n anorfod y bydd methiant i amddiffyn hawliad yn arwain at gofnodi dyfarniad trwy ddiffyg yn erbyn y diffynnydd.

Roedd bron yr holl astudiaethau achos ar ddyfarniadau Llys Sirol annheg yn canolbwyntio ar gostau parcio heb eu talu mewn meysydd parcio preswyl neu fusnes preifat. Ar hyn o bryd, mae'r llywodraeth yn hyrwyddo system o hunan reoleiddio gan gwmnïau parcio preifat. Mae'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG) yn diwygio arferion parcio ac mae eisoes wedi cymryd camau i fynd i'r afael â gweithredwyr parcio preifat twyllodrus, gan gynnwys gwahardd clampio olwynion a llusgo i ffwrdd. Mae'r DCLG yn ymwybodol o bryderon yn gysylltiedig â dyfarniadau Llys Sirol sy'n dilyn costau parcio ac mae'n ystyried sut y gall gyflwyno arferion safonedig ymhlith yr holl gwmnïau parcio, gan ddileu costau annheg a lleihau achosion o hawliadau lle nad yw'r defnyddiwr o bosibl yn ymwybodol bod cost parcio yn cael ei chodi.

## Gwella gwybodaeth i'r cyhoedd

Ers yr argyfwng ariannol ddeng mlynedd yn ôl mae dyledion aelwydydd wedi codi eto. Mae cymdeithas yn un fwy symudol, gyda phobl yn newid cyfeiriad yn amlach neu'n byw mewn un lle ac yn gweithio'n rhywle arall. Gwelwyd cynnydd hefyd mewn tenantiaethau tymor byr, felly mae pobl yn newid cyfeiriad yn amlach. Mae hyn yn golygu bod mwy o berygl na fydd defnyddwyr bob amser yn diweddarau eu cyfeiriad â chredydwyr pan fyddant yn symud, neu eu bod yn dibynnu mwy ar gyfeiriadau e-bost na chyfeiriadau post.

Mae nifer cynyddol o bobl yn bancio ac yn llunio cytundebau credyd trwy ddulliau electronig felly mae llawer yn credu nad oes angen iddynt ddiweddarau eu cyfeiriad post neu wybodaeth bersonol arall â chredydwyr / cyflenwyr.

Mae'r newidiadau hyn, a thystiolaeth nad yw canran uchel o ddiffynyddion yn ymgysylltu â'r llys naill ai pan fyddant yn cael yr hawliad neu'r dyfarniad trwy ddiffyg yn dangos yr angen am ymgyrch wybodaeth i ddweud wrth ddefnyddwyr sut i osgoi dyfarniad Llys Sirol.

Yn gynharach eleni bu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid o'r sector cynghori, y sector rheoli dyledion ac ar draws y llywodraeth i edrych ar ffyrdd o:

- warchod defnyddwyr rhag hawliadau llys sy'n cael eu hanfon i hen gyfeiriad;
- cadarnhau cyfeiriadau cyn bod llys yn cyhoeddi hawliad; a
- gwarchod sgoriau credyd pobl rhag cael eu niweidio os ydynt yn talu eu dyledion yn gyflym.

Nod y Llywodraeth yw sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau o ran dyfarniadau Llys Sirol, er enghraifft, yr angen i ddiweddarau eu manylion cyswllt gyda chyflenwyr nwyddau a gwasanaethau fel y bydd gohebiaeth yn cael ei hanfon i'r cyfeiriad cywir.

Dangosodd ein cyfarfodydd bord gron â rhanddeiliaid fod y system bresennol yn gweithio i'r rhan fwyaf o hawlwyr a diffynyddion, ond mae lle bob amser i adolygu a gwella'r broses i sicrhau bod hawliau pob parti'n cael eu gwarchod ymhellach. Nododd y rhanddeiliaid a oedd yn bresennol yn nigwyddiadau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder mai un o'r meysydd y gellid eu gwella oedd darpariaeth gwybodaeth i ddefnyddwyr a'r angen i negeseuon allweddol gael eu cyflwyno iddynt mewn ffordd gyson.

Dywedodd ein rhanddeiliaid wrthym nad oes ffynhonnell ganolog o wybodaeth y gellir ymddiried ynddi ar gyfer defnyddwyr ar ddyfarniadau Llys Sirol. Nid oes ychwaith wybodaeth ar fuddiannau gwirio sgoriau credyd yn rheolaidd. Er bod peth gwybodaeth i ddefnyddwyr fel canllawiau ar wefannau eiddo i ddefnyddwyr sy'n argymhell yr hyn ddylid ei wneud wrth newid cyfeiriad ac ar wefannau rheoli dyledion ar reoli dyledion, nid oes dolen at ffynonellau gwybodaeth y llywodraeth, ac mae felly'n bosibl nad yw defnyddwyr yn cael neges gyson.

I roi sylw i hyn, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o beth i'w wneud i osgoi dyfarniadau Llys Sirol a beth yw canlyniadau posibl dyfarniad o'r fath.

Er mwyn gwella gwybodaeth i'r cyhoedd, mae'r Llywodraeth yn credu bod angen cynnwys y meysydd canlynol.

Yn gyntaf, byddwn yn hysbysu'r cyhoedd am yr hyn y gallant ei wneud i warchod eu hunain rhag cael dyfarniad Llys Sirol. Yn ogystal â phwysigrwydd bod defnyddwyr yn:

- rhoi gwybod pan fyddant yn newid cyfeiriad;
- sicrhau bod gan y DVLA gyfeiriad cyfoes; ac
- ymgysylltu â chredydwyr.

Hefyd, byddwn yn edrych ar y canlynol:

- sut a pham mae angen rhoi gwybod am newid cyfeiriad;
- beth yn union yw dyfarniad Llys Sirol a pha gamau y gall defnyddwyr eu cymryd pan fyddant yn cael papurau hawliad;
- sut mae herio dyfarniad Llys Sirol;
- egluro'r niwed y gall dyfarniad Llys Sirol ei wneud i statws credyd unigolyn; a
- gwirio eu hanes credyd eu hunain i ganfod a oes ganddynt unrhyw hawliadau heb eu setlo.

### **Cwestiwn 1: A oes unrhyw negeseuon allweddol eraill a fyddai'n werthfawr i ddefnyddwyr? Os oes, beth ydyn nhw?**

Mae ein digwyddiadau i randdeiliaid wedi awgrymu y dylai unrhyw wybodaeth newydd i'r cyhoedd:

- egluro ac annog ymddygiad cyfrifol a fydd yn helpu i warchod llesiant ariannol personol ac atal dyfarniadau Llys Sirol rhag cael eu cyhoeddi os nad yw defnyddwyr yn ymwybodol o'r dyfarniad;
- creu adnodd gwybodaeth gyda chanllawiau eglur ar gyfer unigolion; a
- chyfleu neges gyson i ddefnyddwyr o ffynhonnell y gallant ymddiried ynddi, gyda chwmnïau a rhanddeiliaid yn cael eu hannog a bod disgwyl iddynt i gyfeirio defnyddwyr at y ffynhonnell hon.

### **Cwestiwn 2: A oes unrhyw nodau neu ymddygiad cyfrifol arall a ddylai gael eu cynnwys yn yr wybodaeth i'r cyhoedd ar ôl ei gwella, a pham?**

Bydd y Llywodraeth yn ymdrechu i wella gwybodaeth i'r cyhoedd trwy:

- cynhyrchu ffynhonnell wybodaeth sy'n eglur, syml a chynhwysfawr, gan weithio â mudiadau cynghori a rhanddeiliaid eraill;
- hyrwyddo'r cyngor hwn trwy gyfryngau'r Llywodraeth gyda chyfeiriadau at ffynhonnell y llywodraeth ganolog;
- annog mudiadau eraill i gyfathrebu ac ategu'r cyngor hwn a chyfeirio pobl at wybodaeth y llywodraeth; ac

- ymgysylltu ag adrannau eraill y Llywodraeth i greu ffynhonnell o wybodaeth a galluogi croesgyfeirio'r wybodaeth hon.

**Cwestiwn 3: A oes unrhyw gamau eraill y gallai'r Llywodraeth eu cymryd i wella gwybodaeth i'r cyhoedd nad ydynt wedi'u cynnwys yn y papur hwn? Rhowch fanylion.**

**Cwestiwn 4: Sut all y sector cynghori a mudiadau hawlwyr sicrhau bod y diwydiant yn cyfeirio defnyddwyr at ffynhonnell wybodaeth y llywodraeth?**

Mae'r Llywodraeth am wneud yn siŵr bod gwybodaeth yn cyrraedd defnyddwyr agored i niwed, fel rhai â sgiliau llythrennedd isel, problemau iechyd meddwl ac / neu anableddau dysgu.

**Cwestiwn 5: Pa opsiynau ddylai fod ar gael i helpu pobl agored i niwed neu sy'n cael anhawster gael gafael ar wybodaeth i gael yr arweiniad sydd ei angen arnynt?**



## **Cynnig polisi i dynnu cofnod oddi ar Gofrestr Dirwyon, Gorchmynion a Dyfarniadau**

Pan wneir dyfarniad trwy ddiffyg mewn hawliad bydd yn cael ei gofrestru yn y Gofrestr Dirwyon, Gorchmynion a Dyfarniadau statudol. Bydd y llys yn anfon copi o'r dyfarniad at y diffynnydd, ac mae hefyd yn disgrifio'r camau y gall diffynnydd eu cymryd i osod y dyfarniad o'r neilltu neu dalu.

Bydd y dyfarniad yn aros ar y gofrestr am chwe blynedd, ond os bydd y diffynnydd yn talu'r cyfan o'r swm sy'n ddyledus o fewn 28 diwrnod bydd y cofnod yn cael ei dynnu oddi ar y Gofrestr. Fodd bynnag, os telir y swm ar ôl 28 diwrnod bydd y cofnod yn parhau ar y Gofrestr ond bydd yn cael ei farcio â 'satisfied' pan fydd yr hawlydd yn hysbysu'r llys.

Mae'r wybodaeth ar y Gofrestr yn cael ei defnyddio gan fanciau a benthycwyr eraill i asesu risg credyd a chan fusnesau eraill i asesu risg y bobl maent am wneud busnes â hwy. Dyma'r adeg pan all diffynnyddion ddarganfod bod dyfarniad yn eu herbyn.

Ar hyn o bryd, nid yw peidio â chael hawliad yn amddiffyniad ac ni fyddai dyfarniad yn cael ei osod o'r neilltu am y rheswm hwnnw'n unig. Fodd bynnag, bydd gan ddiffynnydd amddiffyniad os gall ddangos (er enghraifft, nad oedd arian yn ddyledus o gwbl) a bod y dogfennau wedi eu cyflwyno mewn cyfeiriad lle na fyddai'r diffynnydd fod wedi bod yn ymwybodol o'r hawliad, bydd y llys yn ystyried y cais i osod y dyfarniad o'r neilltu.

Ein cynnig yw caniatáu i ddyfarniad gael ei dynnu oddi ar y Gofrestr pan fydd:

- y llys wedi'i fodloni nad oedd y diffynnydd yn ymwybodol o'r hawliad / dyfarniad pan gafodd ei gyhoeddi / ei gofnodi'n wreiddiol
- y llys wedi'i fodloni mai newydd ddod yn ymwybodol o'r hawliad a'r dyfarniad y mae'r diffynnydd
- y diffynnydd yn talu'r swm yn llawn ar unwaith

Felly, byddai'r diffynnydd yn cael ei roi yn yr un sefyllfa â diffynnydd a oedd wedi cael y dyfarniad ac wedi talu o fewn 28 diwrnod ar ôl ei gael.

**Cwestiwn 6: A ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn? Os nad ydych chi, eglurwch eich ateb.**

**Cwestiwn 7: Sut ddylai diffynnydd fodloni'r Llys nad oedd ganddo wybodaeth flaenorol am ddyfarniad y Llys Sirol?**

**Cwestiwn 8: A yw'r cyfnod presennol o chwe blynedd ar gyfer cadw dyfarniadau Llys Sirol ar y Gofrestr yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng, ar y naill law, sicrhau nad yw pobl yn profi niwed gormodol o ganlyniad i ddyledion y gorffennol, tra ar y llall yn sicrhau bod gan fanciau a benthycwyr eraill yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i benderfynu pwy i fenthycu iddynt?**

**Cwestiwn 9: A ddylid cymryd camau eraill i hysbysu unigolyn bod dyfarniad trwy ddiffyg wedi'i gofnodi yn eu herbyn? Os ydych, pa gamau yw'r rheini, a phwy ddylai eu cymryd?**

## **Problem Dyfarniadau Llys Sirol yn cael eu cyflwyno i hen gyfeiriad**

'Cyflwyno' yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio'r broses ffurfiol lle mae dogfennau mewn achosion cyfreithiol yn cael eu dwyn i sylw'r diffynnydd.

Cyn 2005, roedd y Llys Sirol yn cyflwyno'r hawliad drwy'r post. Os oedd yr hawliad yn cael ei ddychwelyd i'r llys heb ei ddanfôn, roedd hysbysiad o ddiffyg cyflwyno'n cael ei anfon at yr hawlydd. Byddai'n rhaid i'r hawlydd wedyn gyflwyno'r hawliad ei hun a rhoi tystysgrif cyflwyno i'r llys. Roedd hyn yn gostus i hawlywyr, gan fod rhaid iddynt yn aml gyflogi cyflwynydd proses (unigolyn sy'n danfôn dogfennau llysoedd yn bersonol) ac roedd y broses yn agored i gael ei chamdefnyddio gan ddiffynyddion a oedd yn ceisio amharu ar y broses gyfreithiol.

Yn dilyn ymgynghoriad yn 2006, cafodd y Rheolau Trefniadaeth Sifil eu diwygio i ddatgan y byddai'r llys yn parhau i anfon hysbysiad i hysbysu'r hawlydd bod y ffurflen hawlio wedi cael ei dychwelyd, ond na chafodd hysbysiad diffyg cyflwyno ei gyhoeddi. Gallai'r hysbysiad hwnn annog yr hawlydd i gyflwyno'r hawliad eu hunain, neu i wirio'r cyfeiriad ar gyfer ei gyflwyno os ydynt yn amau a yw'r diffynnydd wedi cael y ffurflen hawlio cyn cymryd camau pellach.

Mae newidiadau eraill a wnaethpwyd yn 2008 yn cynnwys newidiadau i'r egwyddorion cyffredinol sy'n llywodraethu cyflwyno dogfennau, a geir yn Rhan 6 o'r Rheolau Trefniadaeth Sifil (CPR). Mae Rheol 6.9 yn disgrifio'r darpariaethau ar gyfer cyflwyno hawliad. Lle nad yw diffynnydd wedi rhoi cyfeiriad ar gyfer cyflwyno hawliad, gall hawlydd roi'r cyfeiriad diwethaf sy'n hysbys neu'r cyfeiriad arferol. Nid yw'r Rheolau Trefniadaeth Sifil yn mynnu bod yr hawlydd yn sicrhau nac yn profi bod y diffynnydd wedi cael ffurflen hawlio. Mae'r Rheolau Trefniadaeth Sifil yn datgan os bydd y ffurflen hawlio'n cael ei chyflwyno gan y llys, ac yn cael ei dychwelyd i'r llys heb ei danfôn, y bydd y llys yn hysbysu'r hawlydd bod y ffurflen hawlio wedi cael ei dychwelyd (CPR 6.18) y bernir fod y ffurflen hawlio wedi cael ei chyflwyno ar yr amod bod y camau priodol ar gyfer cyflwyno wedi cael eu dilyn.

Y diffynnydd sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cyfeiriad cywir yn hysbys i'r sawl sy'n cyflenwi nwyddau a gwasanaethau iddynt ac y gallai dyled fod yn daladwy amdanynt. Rydym yn cynnig helpu diffynyddion i gyflawni'r ddyletswydd hon trwy roi gwell gwybodaeth i'r cyhoedd.

Os na fydd yr hawlydd yn gallu dod o hyd i gyfeiriad post presennol y diffynnydd, gall yr hawlydd barhau i wneud cais i'r llys i gyflwyno'r hawliad mewn lle arall. Gall hyn gynnwys cyflwyno trwy gyfeiriad e-bost os yw'r hawlydd a'r diffynnydd wedi bod mewn cysylltiad trwy'r dull hwnnw a bod y llys yn cytuno bod hynny'n briodol.

Mae hawliad yn cael ei gyflwyno i'r diffynnydd gan y llys gan ddefnyddio'r cyfeiriad a roddwyd gan yr hawlydd. Wrth roi gwybodaeth i'r llys, mae'r hawlydd yn cadarnhau cywirdeb y manylion yn y ffurflen hawlio, gan gynnwys y cyfeiriad, trwy lofnodi datganiad a adwaenir fel datganiad o wirionedd. Gall unrhyw un sy'n rhoi gwybodaeth anghywir yn fwriadol fod yn euog o ddirmyg llys a gall hynny yn y diwedd arwain at ddirwy neu gyfnod o garchar. Mae cyflwyno'r hawliad mewn modd dilys yn rhoi cyfle i'r diffynnydd ymateb i'r hawliad ac mae'n dibynnu bod busnesau a defnyddwyr yn cadw'u cofnodion cyhoeddus yn gyfoes a / neu sicrhau bod unrhyw bost yn cael ei ailgyfeirio gan y diffynnydd i'w gyfeiriad cywir.

Bu pryder y gellir gwneud dyfarniad Llys Sirol yn erbyn diffynyddion nad ydynt, am fod yr hawlydd wedi defnyddio hen gyfeiriad, yn gwybod am y dyfarniad Llys Sirol ac yn darganfod fisoedd neu flynyddoedd yn ddiweddarach bod eu statws credyd wedi'i niweidio.

Cyn i ni adolygu'r polisi presennol, hoffem glywed eich barn chi ar y broses gyfredol ar gyfer cyflwyno hawliadau i gyfeiriad.

**Cwestiwn 10: A oes gennych chi brofiad, neu wybodaeth, am ddyfarniadau Llys Sirol sydd wedi'u cofnodi yn erbyn dyledwr heb yn wybod iddynt lle mae hawlwr yn fwriadol yn defnyddio hen gyfeiriad? Os ydych chi, rhwch fanylion.**

**Cwestiwn 11: Sut fyddai modd osgoi hyn?**

## Atodiad A

## Data Ystadegol

Tabl 1: Hawliadau a gyhoeddwyd yng Nghymru rhwng 2005/06 a 2016/17

Blwyddyn Ariannol	Nifer yr hawliadau llys sirol	Ac o'u plith;	
		Nifer yr hawliadau arian penodedig*	Nifer yr hawliadau arian amhenodol**
2005/06	2,022,709	1,471,139	149,000
2006/07	2,109,826	1,571,569	144,399
2007/08	1,910,510	1,363,521	144,711
2008/09	1,976,434	1,421,559	166,575
2009/10	1,706,212	1,190,672	181,335
2010/11	1,561,132	1,047,562	191,857
2011/12	1,465,669	957,923	176,019
2012/13	1,391,867	891,132	174,634
2013/14	1,512,633	1,021,957	148,419
2014/15	1,566,879	1,114,540	144,357
2015/16	1,595,257	1,153,551	146,537
2016/17	1,880,781	1,445,342	144,801

\* Hawliad penodedig – lle mae'r hawlydd yn pennu union swm y ddyled.

\*\*Hawliad amhenodol – hawliad lle mae'r hawlydd yn gadael i'r llys bennu swm yr hawliad  
Mae gweddill yr hawliadau'n gysylltiedig â hawliadau di-arian e.e. meddiant morgais a landlordiaid

**Ffynhonnell:** Tabl 1.2 – Civil Justice Statistics Quarterly, Ionawr i Fawrth 2017 (ffigureau chwarterol wedi'u cyfuno i roi cyfansymiau blwyddyn ariannol)

Tabl 2: Dyfarniadau a wnaed yng Nghymru a Lloegr rhwng 2005/06 a 2016/17

Blwyddyn Ariannol	Nifer y Dyfarniadau Llys Sirol	Y nifer a oedd yn ddyfarniadau trwy ddiffyg	%
2005/06	..	..	
2006/07	..	..	
2007/08	..	..	
2008/09	..	..	
2009/10	936,442	746,144	80%
2010/11	774,307	619,123	80%
2011/12	732,365	595,603	81%

2012/13	647,638	531,629	82%
2013/14	711,274	591,740	83%
2014/15	869,389	739,221	85%
2015/16	877,921	745,235	85%
2016/17	1,138,124	972,986	85%

.. – Nid oes ffigurau ar gael ar gyfer y blynyddoedd hyn.

**Ffynhonnell:** Tabl 1.4 – Civil Justice Statistics Quarterly, Ionawr i Fawrth 2017 (ffigurau chwarterol wedi'u cyfuno i roi cyfansymiau blwyddyn ariannol)

**Tabl 3: Nifer y Ceisiadau a'r Dyfarniadau Llys Sirol a osodwyd o'r neilltu yng Nghymru a Lloegr, ar gyfer blynyddoedd ariannol 2011/12 – 2016/17**

Blwyddyn	Ceisiadau i osod o'r neilltu	Dyfarniadau Llys Sirol a osodwyd o'r neilltu
2011/12	60,136	45,238
2012/13	40,814	32,402
2013/14	39,097	29,331
2014/15	33,636	25,587
2015/16	33,930	25,461
2016/17	44,326	33,671

**Ffynhonnell:** Data a godwyd o system rheoli achosion llysoedd sirol, CaseMan.

## Rhestr Termau

**Hawliad (arian)** – Gall unigolyn neu fusnes wneud cais i Lys Sirol i hawlio arian sy'n ddyledus iddynt trwy wneud hawliad arian trwy'r llys.

**Hawlydd** – Unigolyn neu fusnes sy'n cyhoeddi achos llys.

**Llys Sirol** – y Llys Sirol sy'n delio â materion sifil (di-droseddol). Mae achosion llys sifil yn digwydd pan fydd unigolyn neu fusnes yn ceisio adennill arian sy'n ddyledus iddynt am weithred anghyfreithlon neu anwaith.

**Dyfarniad Llys Sirol** – Dyfarniad neu weithred gan y Llys Sirol.

**Rheolau Trefniadaeth Sifil** – Y Rheolau Trefniadaeth Sifil yw rheolau'r weithdrefn sifil a ddefnyddir gan y Llys Apêl, yr Uchel Lys Cyfiawnder a'r Llys Sirol mewn achosion sifil yng Nghymru a Lloegr. Cyfeirir atynt weithiau fel y 'CPR' neu'r 'Rheolau'.

**Dyled** – Arian sy'n ddyledus, er enghraifft am nwyddau a gwasanaethau neu sy'n gysylltiedig â biliau cyfleustodau, cardiau credyd, benthyciadau banc a thaliadau parcio.

**Dyfarniad Trwy Ddiffyg** – gorchymyn llys rhwymol o blaid y naill barti neu'r llall yn seiliedig ar ryw fethiant i weithredu gan y parti arall. Gan amlaf, mae'n ddyfarniad o blaid hawlydd lle nad yw'r diffynnydd wedi ymateb i hawliad.

**Diffynnydd** – Unigolyn neu fusnes y cyhoeddir hawliad yn ei erbyn am arian sy'n ddyledus.

**DVLA** – Yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrrwr a Cherbydau.

**Gorfodaeth** - Os yw hawlydd yn cael dyfarniad llys o'i blaid ac os na fydd y parti arall yn cydymffurfio, gall yr hawlydd ddewis gorfodi'r dyfarniad i adennill arian sy'n ddyledus gan y diffynnydd.

**Y Gofrestr Dyfarniadau, Gorchmynion a Dirwyon** – cofrestr a gedwir ar ran yr Arglwydd Ganghellor sy'n cynnwys manylion am ddyfarniadau penodol a wnaed yn y Llys Sirol ac Uchel Lys Cymru a Lloegr.

**Gosod dyfarniad o'r neilltu** – canslo dyfarniad neu orchymyn neu gam a gymerwyd gan barti yn yr achos.

**Cyflwyno** – camau sydd angen eu cymryd yn ôl rheolau'r llys i ddod â dogfennau a ddefnyddir mewn achos llys i sylw unigolyn.

**Hawliad arian penodedig** – hawliad am swm 'penodedig' o arian sy'n ddyledus i hawlydd, yn wahanol i hawliad, er enghraifft, iawndal am anaf personol, lle bydd y llys yn penderfynu ar y swm a ddyfernir os bydd yr hawliad yn llwyddo.

## **Holiadur**

Byddwn yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol yn y papur ymgynghori hwn.

**Diolch am gymryd rhan yn yr ymarferiad ymgynghori hwn.**



## Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i roi gwybod i ni amdanoch chi

<b>Enw llawn</b>	
<b>Teitl swydd</b> neu ym mha swyddogaeth yr ydych yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd etc.)	
<b>Dyddiad</b>	
<b>Enw'r cwmni/sefydliad</b> (os yw'n berthnasol):	
<b>Cyfeiriad</b>	
<b>Cod Post</b>	
Os ydych am i ni gydnabod ein bod wedi cael eich ymateb, ticiwch y blwch hwn	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
I ba gyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth, os yw'n wahanol i'r uchod	

**Os ydych yn cynrychioli grŵp**, rhwng enw'r grŵp a disgrifiad byr o'r unigolion neu sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

---



---



---

## Manylion cyswllt / Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn [insert date] i:

**Y Weinyddiaeth Cyfiawnder**  
**Civil Procedure and Enforcement Policy**  
**Floor 3**  
**102 Petty France**  
**Llundain SW1H 9AJ**

### Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

### Copiau ychwanegol

Mae copiau papur ychwanegol o'r papur ymgynghori hwn ar gael o'r cyfeiriad uchod ac mae hefyd ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>.

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill gan [ccjreply@justice.gov.uk](mailto:ccjreply@justice.gov.uk)

### Cyhoeddi ymatebion

Cyhoeddir papur a fydd yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn mewn [insert publication date, which as far as possible should be within three months of the closing date of the consultation] mis. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>.

### Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi disgrifiad byr o'r unigolion a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli wrth ymateb.

### Cyfrinachedd

Gellir cyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â'r trefniadau ar gyfer yr hawl i weld gwybodaeth (sef, yn bennaf, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych yn dymuno i'r wybodaeth a roddwch gael ei thrin fel gwybodaeth gyfrinachol, dylid cofio bod Cod Ymarfer statudol, o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae'r Cod Ymarfer hwn yn ymdrin â rhwymedigaethau o ran cyfrinachedd, ymysg pethau eraill. Oherwydd hynny, byddai o gymorth pe gallech egluro i ni pam yr ydych yn ystyried bod y wybodaeth a roddwyd gennych yn gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn rhoi pob ystyriaeth i'ch eglurhad, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob amgylchiad. Os bydd eich system TG yn cynhyrchu ymwadiad ynghylch cyfrinachedd yn awtomatig, ni fydd y Weinyddiaeth yn ystyried hwnnw'n rhwymol ar ei ben ei hun.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu'ch data personol yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 ac, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, mae hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd partion.

## **Asesiad o Effaith**

Ni chafodd asesiad o effaith ei gynnal, gan fod disgwyl y bydd y gost i fusnesau'n isel ac y tu allan i gwmpas fframwaith rheoleiddiol y Llywodraeth. Nod yr ymgynghoriad yw canfod barn ar broses dyfarniadau trwy ddiffyg y Llys Sirol a sut y gellid ei gwella ac i ddisgrifio cynigion i wella gwybodaeth i'r cyhoedd.

## **Prawf o'r Effaith ar y Gymraeg**

- A yw'r cynigion polisi'n effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yng Nghymru? Ydynt / Nac ydynt
- Os ydynt, a ydych chi wedi asesu effeithiau tebygol y cynigion polisi ar y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru?
- Pa gamau ydych chi wedi'u cymryd i sicrhau bod y cynigion polisi yn gydnaws â'r gofynion a geir yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder? (e.e. a ydych chi wedi ystyried cyfieithu'r ymgynghoriad hwn i'r Gymraeg?)
- [<http://www.justice.gov.uk/publications/corporate-reports/moj/2010/welsh-language-scheme>].

### **Efallai yr hoffai swyddogion polisi ystyried cynnwys y cwestiynau uniongyrchol canlynol yn y ddogfen ymgynghori:**

- A yw'r cynigion yn debygol o effeithio ar eich gallu i fyw eich bywyd trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut fydd yn effeithio arnoch chi?

## Ystyriaethau cydraddoldeb

Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED), yn darparu:

- “Bod yn rhaid i awdurdod cyhoeddus, wrth arfer ei swyddogaethau, roi sylw dyladwy i'r angen i -
- (a) dileu gwahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan neu o dan y Ddeddf hon [Deddf 2010];
  - (b) hybu cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu; ac
  - (c) hybu perthynas dda rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.”

Mae angen rhoi 'sylw dyladwy' yng nghyd-destun y naw “nodwedd warchoddedig” o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 - sef oed, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oed, priodas a phartneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth.

### Ystyriaethau cydraddoldeb

#### ***Gwahaniaethu uniongyrchol***

Nid yw'r gwelliannau arfaethedig i wybodaeth i'r cyhoedd a holi barn ar y trefniadau presennol ar gyfer dyfarniadau trwy ddiffyg Llys Sirol yn gwahaniaethu'n uniongyrchol am nad ydynt yn trin pobl yn llai ffafriol o ganlyniad i'w nodwedd warchoddedig.

#### ***Gwahaniaethu anuniongyrchol***

Ar sail y data cyfyngedig sydd ar gael, nid ydym yn credu bod y gwelliannau arfaethedig i wybodaeth i'r cyhoedd a holi barn ar y trefniadau presennol ar gyfer dyfarniadau trwy ddiffyg y Llys Sirol yn gwahaniaethu'n anuniongyrchol am nad ydynt yn golygu anfantais benodol i unigolion â nodwedd warchoddedig.

#### ***Gwahaniaethu'n deillio o anabledd a dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol***

Nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw gynigion yn arwain at wahaniaethu a fyddai'n deillio o anabledd neu'r angen i wneud addasiadau rhesymol.

#### ***Aflonyddwch ac erledigaeth***

Nid ydym o'r farn bod perygl o aflonyddwch nac erledigaeth o ganlyniad i'r cynigion hyn.

#### ***Hybu cyfle cyfartal***

Ystyriwyd sut mae'r cynigion hyn yn effeithio ar y ddyletswydd i hybu cyfle cyfartal trwy ddiwallu anghenion hawlwr sy'n rhannu nodwedd benodol, sydd ag anghenion sy'n wahanol i angen rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd benodol honno. Rydym yn credu bod y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn gyfle pwysig i hybu cyfle cyfartal yn y cyd-destun hwn trwy ymgynghori ar sut y gallwn wasanaethu defnyddwyr agored i niwed sy'n cael hawliad yn well. Hefyd, mae defnyddwyr yn cael eu gwasanaethu'n well trwy wella gwybodaeth i'r cyhoedd a sicrhau bod y rhai sydd â dyledion ac sy'n cael hawliad yn cael gwybodaeth am eu hawliad a'u cyfrifoldebau ac ar yr effeithiau posibl ar eu statws credyd os na fyddant yn ymateb i hawliad.

### ***Meithrin cysylltiadau da***

Rhoddwyd sylw i'r amcan hwn a gwelwyd nad yw'n debygol o fod yn berthnasol iawn i'r cynigion.

### **Casgliad**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn disgrifio cynigion ar gyfer hysbysu defnyddwyr o'u hawliau a'u cyfrifoldebau ac mae'n holi barn ar effeithiolrwydd a phriodoldeb y prosesau presennol ar gyfer hawliadau a gyhoeddwyd yn y Llys Sirol. Mae hefyd yn ystyried a oes angen newid y system bresennol ac a ddylai mwy o gyfrifoldeb fod ar hawlwyd i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y diffynnydd yn ymwybodol o'r mater cyn bod hawliad yn cael ei gyhoeddi gan Lys Sirol.

Ni allwn ar hyn o bryd ragweld beth fydd canlyniad yr ymgynghoriad. Rydym yn gobeithio y bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos tystiolaeth sut y bydd gwybodaeth i'r cyhoedd ar ddyfarniadau Llys Sirol o fudd i bob defnyddiwr (hawlwyd a diffynnyddion fel ei gilydd) ac yn y man byddwn yn ystyried canlyniad yr ymgynghoriad o ran y goblygiadau i gydraddoldeb a hynny o sawl safbwynt.

**Cwestiwn 12: A ydych chi'n credu ein bod wedi nodi'n gywir ystod a graddfa effeithiau'r cynigion hyn ar rai â nodweddion gwarchoddedig?**

**Cwestiwn 13: Os na, a ydych chi'n ymwybodol o unrhyw dystiolaeth nad ydym wedi'i hystyried fel rhan o'n dadansoddiad cydraddoldeb? Os felly, beth yw effaith y dystiolaeth honno ar ein cynigion?**

## **Egwyddorion ymgynghori**

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth yn cael eu nodi yn yr egwyddorion ymgynghori.





[leave blank – inside back cover]



© Hawlfraint y Goron 2017

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](http://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3) neu ysgrifennwch at y Tîm Polisiâu Gwybodaeth, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Lle'r ydym wedi nodi bod gwybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint sy'n gysylltiedig.

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn fersiynau amgen ar gais gan [ccjreply@justice.gov.uk](mailto:ccjreply@justice.gov.uk)